# Sut i gymryd rhan yn Nhaith Gerdded y Draenogod fel clwb neu grŵp dysgu

Hwre! Mae eich grŵp wedi cofrestru i gymryd rhan yn y Nhaith Gerdded y Draenogod! Gobeithio eich bod yn gyffrous am ddechrau arni a chodi arian ar gyfer bywyd gwyllt.

Eich her chi yw cerdded 3km rhwng 31ain Mawrth a 13eg Ebrill 2025! Mae hynny'n swnio fel pellter mawr. Ond oeddech chi'n gwybod bod draenogod yn gallu cerdded 3km mewn un noson yn unig? A bydd pob cam y bydd eich grŵp yn ei gymryd yn helpu i gefnogi bywyd gwyllt fel draenogod. I'ch helpu chi i gael y gorau o'ch her codi arian, rydyn ni wedi ymuno â'n ffrindiau yn Timmy Time. Yn ogystal â chodi arian ar gyfer bywyd gwyllt, byddwch yn archwilio ac yn dysgu am fyd natur.

## Cynllunio eich Taith Gerdded y Draenogod

Mae cymryd rhan yn Nhaith Gerdded y Draenogod yn gyfle gwych i chi archwilio llefydd newydd a darganfod mwy am ein byd naturiol. Ar yr adeg yma o'r flwyddyn, byddwn yn dechrau gweld llawer o fywyd gwyllt y gwanwyn, gan gynnwys draenogod, a fydd yn dechrau dod allan o'u gaeafgwsg! Felly, gwisgwch esgidiau cryf a mynd allan i'r awyr agored i gwblhau eich Taith Gerdded y Draenogod. Ond does dim rhaid i chi a'ch grŵp fynd yn bell i gymryd rhan!

Os oes gennych chi fan cyfarfod rheolaidd i gynnal eich sesiynau grŵp, beth am gwblhau eich Taith Gerdded y Draenogod o amgylch eich parc neu gae chwarae lleol? A pheidiwch â gadael i dywydd gwlyb eich rhwystro chi – fe allech chi hefyd gwblhau eich Taith Gerdded y Draenogod dan do.
Fe allech chi gwblhau eich Taith Gerdded y Draenogod mewn un diwrnod neu gallwch ei lledaenu dros bythefnos – chi sydd i dewis!

## Ydych chi'n rhan o grŵp Girlguiding neu Sgowtiaid?

Mae cymryd rhan yn Nhaith Gerdded y Draenogod yn ffordd wych o weithio tuag at unrhyw fathodynnau awyr agored.
Enfysau - Archwilio (Cam 1), Creu Newid (Cam 1 a 2)
Brownies - Archwilio (Cam 1 a 2), Elusennau, Creu Newid (Cam 2)
Gwiwerod – Bathodyn Gweithgaredd Cam Cerdded (Cam 1)
Afancod – Bathodyn Gweithgaredd Archwilio, Bathodyn Gweithgaredd Cam Cerdded (Cam 1)
Cybs - Bathodyn Gweithgaredd Cam Cerdded (Cam 1)

The Wildlife Trusts: Bringing Back Wildlife. Registered charity number 207238 and © TM Aardman Animations Ltd 2025. All rights reserved

## Hyrwyddo

Nawr mae'n amser dweud wrth bawb beth yw eich cynlluniau! Gallwch argraffu posteri o'ch pecyn adnoddau i'w gosod ar ffenestri a hysbysfyrddau.

A chofiwch argraffu eich ffurflenni nawdd a gofyn i deulu a ffrindiau noddi Taith Gerdded y Draenogod eich grŵp!

## Cael hwyl!

Mae llawer o gyfleoedd i ddysgu am fywyd gwyllt wrth i chi gwblhau Taith Gerdded y Draenogod! Mae gan yr Ymddiriedolaethau Natur adnoddau Timmy Time gwych i'r rhai iau sy'n hoff o fywyd gwyllt eu mwynhau ac i helpu i'w hannog nhw i ofalu am ein byd gwyllt rhyfeddol a'i gefnogi.

## Dathlu eich llwyddiant

Ar ôl i chi gwblhau eich Taith Gerdded y Draenogod, lawrlwythwch eich tystysgrifau i bob disgybl fynd adref gyda nhw. Hefyd, os bydd eich grŵp wedi codi £30 neu fwy, byddwn yn anfon taflen sticeri Taith Gerdded y Draenogod atoch chi, i'ch grŵp eu gwisgo gyda balchder!

# Pob lwc!




The Wildlife Trusts: Bringing Back Wildlife. Registered charity number 207238 and © TM Aardman Animations Ltd 2025. All rights reserved